

Sesiwn Hyfforddiant



Cymraeg

English

Cysgliad



- Gwirydd Sillafu a Gramadeg



- Casgliad o eiriaduron electronig



Beth yw Cysgeir?

Casgliad o eiriaduron electronig dwyieithog yw Cysgeir
Mae' n cynnwys:


- CysGair2 (Geiriadur cyffredinol)
- Y Termiadur
- Geiriadur Termau Archaeoleg
- Termau yr Asiantaeth yr Amgylchedd
- Termau Cyllid
- Termau Gwaith a Gofal Cymdeithasol
- Termau Hybu Iechyd
- Termau Nyrsio
- Termau Iechyd Meddwl Phlant a Phobl Ifanc
- Termau Iechyd Pobl Hŷn
- Termau Therapi Galwedigaethol



Mae modd i'r defnyddiwr wneud y canlynol:

- teipio unrhyw air Saesneg neu Gymraeg a gweld cyfieithiad ohono;
- clicio ar unrhyw air Saesneg neu Gymraeg sy'n cael ei ddangos gan Cysgeir a gweld ei gyfieithiad;
- dewis gair mewn dogfen prosesydd geiriau neu gymhwysiad arall, gweld cyfieithiad ohono a'i ludo yn ôl yn eich dogfen yn awtomatig;
- galw ar Cysgeir o'r tu mewn i Word neu Open Office.org;
- dangos mwy nag un diffiniad ar y sgrin ar yr un pryd;
- nod-chwilio llythrennau, llafariaid a chytseiniaid penodol (*);
- addasu ymddangosiad sgrin Cysgeir;
- chwilio am ddiffiniadau cysylltiedig

Prif Sgrin Cysgeir



Y Bar Offer



Bocs Geiriau

Teipiwch air Cymraeg neu Saesneg yn y Bocs Geiriau. Os bydd iaith y gair yn cyfateb i iaith y Rhestr Eiriau, bydd y Rhestr honno'n cael ei diweddaru'n awtomatig i ddangos safle'r gair yn y geiriadur. Ar ôl gorffen teipio, gallwch chi glicio ar y botwm **Chwilio** neu gallwch chi wasgu **Enter** i ddangos cyfieithiad o'r gair Saesneg/Cymraeg.

Y Bar Offer




Y Rhestr Hanes



Mae'r rhaglen yn cadw cofnod o'r geiriau diweddaraf yr ydych chi wedi'u harchwilio. Gallwch chi fynd yn ôl i weld y gair blaenorol drwy glicio ar y botwm **Gair Blaenorol** ar y bar offer. Drwy glicio ar y saeth i lawr, sydd i'r chwith o'r **Bocs Geiriau**, mae modd gweld rhestr syrthio sy'n dangos yr holl eiriau yr ydych chi wedi edrych arnynt mewn un sesiwn. Gellir sgrolio drwy'r rhestr a chlicio ar unrhyw air i fynd yn ôl i weld cyfieithiad o'r gair hwnnw. Os ydych chi wedi dewis gair o'ch Rhestr Hanes, gallwch chi fynd ymlaen at y gair nesaf a oedd yn y Rhestr Hanes drwy glicio ar y botwm **Gair nesaf**.

Y Botwm Gair Blaenorol / Nesaf



Y botwm Gair Blaenorol

Mae hwn yn mynd â chi yn ôl at y gair blaenorol yn y Rhestr Hanes.

Y botwm Gair Nesaf

Mae hwn yn dangos y gair nesaf yn y Rhestr Hanes.

Y Botwm Chwilio



Mae hwn yn chwilio am y gair sydd yn y Bocs Geiriau ac yn dangos y cyfieithiad ohono yn y Ffenestr Ddiffinio.


Y Botwm Pori



Y Botwm Pori

Mae'r botwm yn cychwyn y Porwr Geiriau o'r gair presennol.

Y Botwm Pori



Mae'r ffenestr hon yn dangos y cysylltiadau rhwng geiriau, ac yn galluogi'r defnyddiwr i weld diffiniadau cysylltiedig ac archwilio'r cyfieithiadau ohonynt.



Botwm iaith y Geiriadur




Botwm iaith y Geiriadur

Mae hwn yn dangos mai Cymraeg-Saesneg yw iaith bresennol y geiriadur. Pan gliciwch chi ar y botwm, bydd Cysgeir yn newid yn eiriadur Saesneg-Cymraeg.



Y Ddewislen



Mae'r ddewislen yn cynnwys 4 eitem:

Ffeil – Gosod, Gadael

Bysell frys Alt-f

Ymddangosiad – Cymraeg – Saesneg, Newid iaith y sgrin, Newid Geiriadur, Lleihau maint y ffont, Cynyddu maint y ffont a Dewisiadau (Bysell frys Alt-y)

Ffenestr – Rhaeadru, Teilsio, Minimeiddio, Cau ...

Bysell frys Alt-n

Cymorth – Cyfarwyddiadau ar-lein

Bysell frys Alt-h

Ymddangosiad	Ffenestr	Cymorth
Saesneg Cymraeg	F2	
Newid iaith y sgrin	F3	
Newid Geiriadur	F4	
Lleihau maint y ffont	F9	
Cynyddu maint y ffont	F10	
Dewisiadau	F5	

Rhannau ymadrodd

Rhannau ymadrodd	
eg	enw gwrywaidd
eb	enw benywaidd
ell	enw lluosog
e	enw
b	berf
be	berfenw
b.angh	berf anghyflawn
b.gyfl	berf gyflawn
talf.	talfyriad
ans	ansoddair
ansb	ansoddair benywaidd

Rhannau ymadrodd	
cyn	berf gynorthwyol
cys	cysylltair
adf	adferf
etorf	enw torfol
rhag.dang.	rhagenw dangosol
ebych	ebychiad
rhag.gof.	rhagenw gofynnol
egb	enw gwrywaidd/benywaidd
rhagddod	rhagddodiad
ardd	arddodiad
rhagenw	rhagenw
y fannod	y fannod



Cymraeg

English



Beth yw Cysill?

Gwirio Sillafu, Gramadeg a Thesawrws

Mae gwirydd sillafu cyfrifiadurol yn gweithio drwy gael hyd i eiriau unigol yn eich dogfen nad yw'n eu hadnabod - hynny yw, geiriau nad ydynt yn ei eiriadur mewnol.

Ar ôl oedi ar air o'r fath, bydd y gwirydd sillafu'n awgrymu geiriau o'i eiriadur a all, o bosibl, gael eu cyfnewid am y gair dieithr.

Mae'r rhaglen yn cynnig awgrymiadau drwy nodi gwahanol gyfuniadau o lythrennau sydd yn cyfateb i batrwm sillafu'r gair dieithr.



Beth yw Cysill?

Gwirio Sillafu, Gramadeg a Thesawrws

Mae gwirydd gramadeg neu arddull yn ceisio adnabod cyfuniadau o nifer o eiriau sy'n dangos strwythur gramadegol neu strwythur arddull arbennig. Caiff y strwythur ei archwilio o ran cywirdeb gramadegol neu briodoldeb o ran arddull.

Yn y Gymraeg, er enghraifft, rhaid i ansoddair fel 'mawr' dreiglo'n feddal ar ôl enw benywaidd unigol, fel 'cath'. 'Cath fawr' sy'n gywir ac nid 'cath mawr'. Cyn belled â bod y rhaglen gyfrifiadurol yn gallu adnabod y strwythur hwn yn gywir (sef ansoddair ar ôl enw benywaidd unigol), bydd yn gallu gwneud yn siwr fod yr ansoddair wedi'i dreiglo'n gywir.



Beth yw Cysill?

Gwirio Sillafu, Gramadeg a Thesawrws

Oherwydd cymhlethdod y Gymraeg, ni fydd yn bosibl adnabod strwythur gramadegol arbennig bob tro. Yn wir, mae'n bosibl y bydd Cysill weithiau yn oedi ar strwythur cywir ac yn cynnig awgrym.

Gall Cysill 3 adnabod nifer o gamgymeriadau gramadegol a chamgymeriadau arddull. Disgrifir y mathau o gamgymeriadau sy'n cael eu hadnabod gan y rhaglen yn Dangos|Dewisiadau|Sillafu a Gramadeg. Gellir galluogi neu analluogi unrhyw un o'r rheolau hyn.




Defnyddio Cysill 3 gyda'ch prosesydd geiriau

Mae Cysill yn cynnwys Bar Offer ar gyfer nifer o raglenni prosesu geiriau, gan gynnwys gwahanol fersiynau o Microsoft Word ac Open Office.org.





Cysill 3.0





Defnyddio'r Bar Offer

- O'r tu mewn i ddogfen prosesydd geiriau, gallwch ddefnyddio'r botymau i wirio:

Sillafu a/neu ramadeg yr **holl destun** o safle'r cyrchwr hyd at ddiwedd y ddogfen. Rhwch y cyrchwr ar ddechrau'r ddogfen, cliciwch ar eicon Gwirio Dogfen a gnewch unrhyw gywiriadau yn ffenestr Cysill.

Sillafu a/neu ramadeg **rhan o destun** wedi'i hamlygu. Amlygwch ran o'ch dogfen, cliciwch ar eicon Gwirio Dogfen a gnewch unrhyw gywiriadau yn ffenestr Cysill.

Sillafiad **un gair**. Rhwch y cyrchwr ar y gair neu amlygwch unrhyw ran ohono a chliciwch ar eicon Gwirio Gair.



Agor




Mae'r dewis hwn yn agor ffeil i'w gwirio gan Cysill (h.y. heb fod o dan reolaeth prosesydd geiriau). Gallwch wirio ffeiliau:

.txt
.html
.rtf

Ni allwch wirio ffeiliau MS Word drwy glicio ar Ffeil|Agor.

Rhaid i chi fynd drwy MS Word a Bar Offer Cysill i wneud hynny.

Teipiwch enw'r ffeil rydych am ei gwirio yn llinell File Name.





Gosod




Gosod Bar Offer Word
Gallwch osod Bar Offer Cysill yn MS Word.

Dadosod Bar Offer Word
Cliciwch ar hwn i ddadosod Bar Offer Cysill yn MS Word.
Start/OpenOffice.org

Gallwch osod Bar Offer Cysill yn OpenOffice/StarOffice (os yw OpenOffice neu StarOffice yn bresennol). Bydd yr opsiwn hwn yn agor dogfen OpenOffice er mwyn gadael i chi glicio ar fotwm i osod y bar offer



Golygu



Cliciwch ar Gwirio i gychwyn y gwirydd sillafu a gramadeg. Bydd yn cychwyn o safle'r cyrchwr.

Dadwneud y cywiriad diwethaf.

Pan fyddwch yn gwirio sillafu a gramadeg, mae modd anwybyddu gair y mae Cysill wedi oedi arno. Mi fydd Cysill yn cofio'r gair hwnnw. Drwy glicio ar Clirio Rhestr Anwybyddu, bydd Cysill yn clirio'r rhestr o eiriau i'w hanwybyddu.


Bwrw ymlaen â gwirio'r ddogfen ar ôl y frawddeg hon.

Cliciwch ar Anwybyddu Brawddeg i neidio i ddiwedd y frawddeg y mae Cysill yn ei gwirio. Defnyddiwch Anwybyddu Brawddeg i neidio dros ddarnau o destun mewn iaith heblaw'r Gymraeg.



Golygu

Mae'r ffenestr hon yn eich galluogi i ychwanegu geiriau y dylai Cysill eu cywiro yn awtomatig. Gall hyn fod yn ddefnyddiol os byddwch yn camsillafu neu'n camdeipio'r un geiriau yn aml.




Teipiwch air gwallus yn y blwch Newid, teipiwch sillafiad cywir y gair yn y blwch i ac yna cliciwch ar Ychwanegu.

Os byddwch am dynnu unrhyw gofnod o'r rhestr, cliciwch arno a chliciwch ar Dileu.

Ticiwch Cywiro gwallau amlwg heb ofyn os ydych am i Cysill gywiro gwallau amlwg heb ofyn - er enghraifft, geiriau heb yr acen briodol, gwallau dyblu 'n' neu 'r'. Ni allwch roi mwy nag un gair yn y blwch Newid.



Nid yw Cysill yn gallu newid dau air ar y tro.





Geiriadur Personol


Mae modd creu'ch geiriaduron personol eich hun yn Cysill 3.



Mae ffenestr Geiriaduron Personol yn dangos rhestr o'r geiriaduron personol cyfredol sy'n cael eu defnyddio gan Cysill. Mae tic yn y blwch gyferbyn â geiriadur yn dynodi ei fod yn cael ei ddefnyddio i wirio sillafu. Os nad oes tic yn y blwch, nid yw'n cael ei ddefnyddio. Cliciwch unwaith ar flwch i ychwanegu neu ddileu tic.



Defnyddio Geiriaduron Personol



Mae ffenestr Geiriaduron Personol yn dangos rhestr o'r geiriaduron personol cyfredol sy'n cael eu defnyddio gan Cysill.

Mae tic yn y blwch gyferbyn â geiriadur yn dynodi ei fod yn cael ei ddefnyddio i wirio sillafu.


Os nad oes tic yn y blwch, nid yw'n cael ei ddefnyddio.

Cliciwch unwaith ar flwch i ychwanegu neu ddileu tic.

Mae'r blwch Enw llawn yn dangos lleoliad y geiriadur ar eich cyfrifiadur.



Defnyddio Geiriaduron Personol



Ychwanegu

Mae'r botwm hwn yn gadael i chi ychwanegu geiriadur at y rhestr.

Drwy glicio ar hwn, bydd ffenestr safonol agor ffeiliau Windows yn ymddangos.


Bydd hon yn gadael i chi ddewis ffeil geiriadur (.dic).

Cliciwch Open i agor y geiriadur perthnasol.

Os ydych am greu geiriadur personol newydd, teipiwch ei enw yn y blwch testun File name:.


Bydd Windows yn eich hysbysu nad yw'r geiriadur hwn yn bodoli ac yn gofyn i chi a hoffech ei greu.

Cliciwch Yes i'w greu neu No i beidio â'i greu.





Defnyddio Geiriaduron Personol



Bydd y geiriadur a gafodd ei ddewis neu'i greu gennych yn ymddangos yn y rhestr o eiriaduron personol.

Dileu

Ar ôl dewis geiriadur o'r rhestr a chlicio ar Dileu, bydd y geiriadur yn cael ei ddileu o'r rhestr. Ni fydd y ffeil yn cael ei dileu o'ch cyfrifiadur.

Golygu

Cliciwch ar hwn i agor ffenestr Golygu Geiriadur Personol.

Cau

Bydd y botwm hwn yn cau ffenestr Geiriaduron Personol.

Help

Cliciwch ar Help i agor y ffeil gymorth hon



Golygu Rhan Ymadrodd Gair

A screenshot of a software dialog box titled 'Golygu Rhan Ymadrodd'. The dialog has a blue title bar with a close button. Inside, there's a label 'fodan' at the top left. Below it is a group box labeled 'Rhan ymadrodd' containing a list of radio button options: 'Dim gwybodaeth', 'Enw gwrywaidd', 'Enw benywaidd' (which is selected and has a dotted border), 'Enw gwrywaidd/benywaidd', 'Enw lluosog', 'Enw person', 'Enw lle', 'Ansoddair', 'Berf', and 'Ffurff ferfol'. To the right of the list are three buttons: 'Iawn', 'Canslo', and 'Help'.


Yn y ffenestr hon, gallwch olygu rhan ymadrodd y gair a ddewiswyd gennych yn ffenestr Golygu Geiriadur Personol.

Dewiswch y rhan ymadrodd addas a chliciwch ar Iawn i gadw'r newid.

Cliciwch ar Canslo os nad ydych am gadw'r newid.



Golygu Rhan Ymadrodd Gair



Ar ôl i chi nodi rhan ymadrodd gair yn eich geiriadur personol, bydd byrfodd y rhan ymadrodd hwnnw'n ymddangos yn rhestr eiriau'r geiriadur.

Yn yr enghraifft isod, mae 'fodan' wedi ei nodi fel enw benywaidd unigol ac felly ceir 'eb' ar ei ôl.

Bydd Cysill wedyn yn gallu defnyddio'r rhan ymadrodd hwnnw i gywiro treigladau anghywir.



Dewisiadau

A screenshot of a software dialog box titled 'Dewisiadau'. It has three tabs: 'Sillafu a Gramadeg' (selected), 'Cyffredinol', and 'Bysellau Brys'. The dialog contains a list of 12 options, each with a checkbox. At the bottom, there are three buttons: 'Iawn', 'Canslo', and 'Help'.

Dewisiadau

Sillafu a Gramadeg | Cyffredinol | Bysellau Brys

- ☐ Anwybyddu geiriau sy'n dechrau â phriflythyren
- ☐ Anwybyddu geiriau sydd mewn priflythrennau
- ☒ Anwybyddu geiriau sy'n cynnwys rhifau
- ☒ Tynnu sylw at eiriau wedi eu hailddweud
- ☒ Anwybyddu geiriau Saesneg
- ☒ Dechrau brawddeg gyda phriflythyren
- ☒ Derbyn geiriau anffurfiol
- ☒ Derbyn terfyniadau anffurfiol
- ☒ Tynnu sylw at frawddegau sy'n cynnwys 40 o eiriau
- ☒ Tynnu sylw at 'I' ('i' - prif lythyren) yng nghanol brawddeg
- ☒ Tynnu sylw at farc cwestiwn ar goll
- ☐ Newid "y" i "r" ar ôl llafariad

Iawn Canslo Help


Mae'r ffenestr hon yn dangos y dewisiadau posibl sydd ar gael wrth wirio sillafu a gramadeg.



Gwiro Gair



Gallwch agor ffenestr Gwiro Gair drwy glicio ar yr eicon ar Far Offer Word. Gallwch hefyd agor y ffenestr drwy wasgu F5 ar unrhyw achlysur neu drwy ddewis Gwiro Gair o'r ddewislen






Thesawrws



Gallwch agor y Thesawrws drwy glicio ar yr eicon ar Far Offer Word.
Gallwch hefyd wasgu F6 neu ddewis Thesawrws o'r ddewislen Dangos.




Bydd unrhyw air a amlygwyd yn eich testun yn ymddangos ym mlwch testun y Thesawrws. Os na amlygwyd gair, bydd y blwch testun yn wag a bydd modd teipio gair ynddo.

Mae'r blwch Ystyron yn dangos cyd-destunau posibl ar gyfer y gair dan sylw. Yn yr enghraifft uchod, gall 'iaith' olygu 'araith' neu 'cyfrwng'. Cliciwch ar un o'r geiriau hyn i weld cyfystyron yn y blwch ar y dde. Cliciwch ar unrhyw air yn y blwch hwn i'w osod ym mlwch Newid i.



Geiriadur Llygoden



Symudwch bwyntydd y llygoden dros y geiriau a phwyswch Ctrl ar y bysellfwrdd ar yr un pryd. Bydd y Geiriadur Llygoden yn dangos prifair, rhan ymadrodd ac un neu fwy o gyfieithiadau.



Cymraeg

English